ADRODDIAD BLYNYDDOL

PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2000 - 2001

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

3. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

- Cwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor
- Ymgynghorydd Annibynnol
- Cofrestr Buddiannau'r Aelodau
- Adolygiad Buddiannau'r Aelodau
- Buddiannau Anuniongyrchol
- Seiri Rhyddion
- Protocol gyda'r Heddlu
- Adolygiad y Trefniadau

4. Casgliadau'r Pwyllgor o ran Safonau Moesegol(SO 1 6.1(v))

Atodiadau

Atodiad A: Cylch gwaith y Pwyllgor
Atodiad B: Adroddiadau am Gwynion

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

1. Cyflwyniad

1.1 Dyma'r ail adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan ei Bwyllgor Safonau Ymddygiad, fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 16. Mae'n cwmpasu'r cyfnod 12 mis o 1 Awst 2000 hyd at 31 Gorffennaf 2001.

1.2 Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn un o chwe Phwyllgor Sefydlog y Cynulliad. Cadeirydd y Pwyllgor yw David Melding AC, a'r aelodaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn oedd Eleanor Burnham AC (ers 3 Ebrill 2001), Cynog Dafis AC, Richard Edwards AC (hyd at 9 Tachwedd 2000), Val Feld AC (hyd at 9 Tachwedd 2000), Janice Gregory AC, Christine Gwyther AC (ers 9 Tachwedd 2000), Brian Hancock AC, Christine Humphreys AC (hyd at 3 Erbill 2001), Gareth Jones AC, Karen Sinclair AC (ers 9 Tachwedd 2000) a Gwenda Thomas AC.

1.3 Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Christine Humphreys AC a Richard Edwards AC am eu cyfraniad i'w waith yn ystod eu cyfnod aelodaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn talu teyrnged i Val Feld am ei chyfraniad gwerthfawr i'w waith.

1.4 Yn ystod ei ail flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith a bu'n ystyried pedair cŵyn. Yn unol â rheolau sefydlog, roedd y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac ar gael i'w darlledu, ac eithrio'r cyfarfodydd i drafod y pedair cŵyn, a gynhaliwyd mewn sesiwn preifat. Amlinellir manylion am raglen waith a gweithgareddau'r Pwyllgor isod.

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae Rheol Sefydlog 16 yn nodi cylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'r gofynion o ran aelodaeth, rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol ar safonau, cyfarfodydd ac adroddiadau. Ceir copi yn Atodiad A.

2.2 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Llywydd ac unrhyw faterion o egwyddor yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r Gofrestr Buddiannau'r Aelodau.

3. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

3.1 Er gwaethaf y ffaith mai dim ond pedwar cŵyn a gyfeiriwyd at sylw'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, roedd llwyth gwaith y Pwyllgor yn un uchel.

Cwynion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor

3.2 Mae Rheol Sefydlog 16 yn cyfyngu ar bwerau ymchwiliad y Pwyllgor i gwynion a gyfeiriwyd at sylw'r Pwyllgor gan Lywydd y Cynulliad. Rhwng y cyfnod 1 Awst 2000 a 31 Gorffennaf 2001, cyfeiriwyd pedair cŵyn. Roedd tri achos yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau'r Cynulliad. Roedd y pedwerydd yn achos honedig o dorri Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad. Cadarnhawyd un o'r cwynion, a gwrthodwyd y lleill. Cyhoeddwyd copïau o adroddiadau'r Pwyllgor ar y Mewnrwyd/Rhyngrwyd a cheir copi ohonynt yn Atodiad B.

3.3 Gwnaeth yr un AC y cadarnhawyd y gŵyn yn ei erbyn ennyn cryn sylw gan y cyfryngau. Er bod un erthygl yn y wasg wedi codi cwestiynau ynghylch defnyddio'r broses gwynion lawn yn yr achos hwn, roedd yr adroddiadau yn y cyfryngau yn gyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor dan sylw. Bydd y Pwyllgor yn archwilio gwahanol ffyrdd o ymdrin ag achosion "de minimus" lle bo'n briodol.

Yr Ymgynghorydd Annibynnol

3.4. Penodwyd Mr Richard Penn yn Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ynghylch Safonau Ymddygiad ar 15 Mawrth 2000. Mae Rheol Sefydlog 16.3 yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu fel ymgynghorydd annibynnol i'r Llywydd ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad ac i gynorthwyo'r Pwyllgor, drwy wahoddiad, wrth gyflawni ei ymchwiliadau. Mae Mr Penn wedi bod yn weithgar yn y naill rôl a hoffai'r Pwyllgor ddiolch iddo am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor.

Cofrestr Buddiannau'r Aelodau

3.5 Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd a chyhoeddwyd y Gofrestr gan y Swyddfa Gyflwyno yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd a'r Rheolau Sefydlog. Mae Swyddfa'r Llywydd wedi cyhoeddi adroddiadau chwarterol am y Gofrestr ac mae Clerc y Pwyllgor yn darparu diweddariad ar lafar ynghylch datblygiadau gyda'r Gofrestr ymhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

3.6 Nid yw'r bosibl nodi'r nifer sydd wedi edrych ar y Gofrestr ar wefan y Cynulliad fel ffigwr ar wahân i'r rhai â edrychodd ar y wefan. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi derbyn nifer fechan o ymholiadau ynghylch buddiannau Aelodau unigol ac Aelodau'r Cynulliad yn eu cyfanrwydd. Mae cyhoeddi arweiniad diwygiedig ynghylch cofrestru (gweler Paragraff 3.10 isod) wedi gwneud y gofynion yn fwy eglur ac mae pob arwydd bod y Gofrestr wedi dod yn un o nodweddion arferol y Cynulliad.

Adolygiad Buddiannau'r Aelodau

3.7 Yng ngwanwyn 2000 dechreuodd y Pwyllgor ar adolygiad sylfaenol o'r fframwaith a'r rheolau ynghylch y gofynion i Aelodau'r Cynulliad gofrestru a datgan buddiannau penodol. Roedd yr Aelodau'n ansicr ynghylch union ystyr

y rheolau ynghylch datgan budd a phleidleisio a gofynion rheol sefydlog 4 a'i atodiad.

3.8 Roedd yr adolygiad yn cynnwys archwiliad trwyadl o holl adrannau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru, rheolau sefydlog, yr arweiniad a oedd ar gael i Aelodau'r Cynulliad a phrofiad o'r cofrestriadau a'r datganiadau a wnaed.

3.9 Y prif bwynt yn deillio o'r ymchwiliad oedd yr angen i wneud y gofynion ynghylch cofrestru gwerthoedd mewn perthynas â buddiannau ariannol yn gliriach. Cymeradwywyd casgliadau'r Pwyllgor a'i ddull gweithredu arfaethedig yn ystod ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, ynghyd â drafft diwygiedig o arweiniad y Cynulliad ynghylch "Cofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau". Ymgynghorwyd â'r Aelodau dros yr haf ynghylch safbwyntiau'r Pwyllgor. Roedd yr ymateb yn cefnogi casgliadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r gofyniad i gofrestru a datgan gwerthoedd.

3.10 Ar y cyd â thrafod adroddiad blynyddol y Pwyllgor, ym mis Tachwedd 2000 cytunodd y Cynulliad ar y diwygiad angenrheidiol i'r Atodiad i reol sefydlog 4. Cymeradwyodd y Cynulliad yr arweiniad diwygiedig *Arweiniad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau* ar 13 Chwefror 2001.

3.11 Dosbarthwyd llyfryn poced ynghylch cofrestru a datgan buddiannau Aelodau i'r Aelodau ac fe'i gyhoeddwyd ar y Mewnrwyd ym mis Mawrth 2001. Hefyd sicrhawyd bod y daflen ar gael i'r Aelodau pan maent yn y cyfarfod llawn.

3.12 Mae'r Pwyllgor wedi nodi hefyd bod yr arfer o ddatgan buddiannau ar ôl gwneud cyfraniad mewn cyfarfod llawn yn tynnu oddi wrth bwysigrwydd y gofyniad a'i fod wedi arwain at beth dryswch. Dylid gwneud datganiad ar ddechrau cyfraniad Aelod. Bu'r Cadeirydd yn trafod hyn gyda'r Llywydd, a wnaeth atgoffa'r Aelodau am eu cyfrifoldebau. Gobeithia'r Pwyllgor fod y mater hwn wedi'i ddatrys yn awr.

<u>Buddiannau Anuniongyrchol</u>

3.13 Nododd adolygiad y Pwyllgor o'r *Arweiniad ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau* nifer o anghysondebau o ran y gofynion i Aelodau ddatgan a chofrestru "buddiannau anuniongyrchol".

3.14 Mae gorgyffwrdd rhwng y buddiannau a nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 (y byddai sancsiynau troseddol a sifil Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn berthnasol iddynt) a'r buddiannau a nodir ym mharagraff 2 Penderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999 nad oes unrhyw sancsiynau i'w hatgyfnerthu. Cytunwyd y dylid diwygio'r Penderfyniad i beidio â chynnwys y buddiannau hynny y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 4.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor y dylai barhau i fod yn ofynnol i Aelodau gofrestru a datgan buddiannau anuniongyrchol ac y dylid cynnwys y rhain yn yr holl gategorïau perthnasol a restrwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4. Fodd bynnag, oherwydd y sancsiynau troseddol a fyddai'n deillio o beidio â chofrestru a pheidio â datgan, penderfynwyd bod angen diffinio Buddiannau Anuniongyrchol yn fwy manwl. Bydd argymhellion y Pwyllgor ynghylch hyn yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad yn yr hydref.

Aelodau sy'n Seiri Rhyddion

3.16 Ym mis Mawrth 2001, estynodd y Llywydd wahoddiad i'r Pwyllgor ystyried gofyniad y Cynulliad i Aelodau gofrestru a ydynt yn aelod o'r Seiri Rhyddion yn y Gofrestr Buddiannau statudol. Daeth Mr James R Bevan, Uwch Ysgrifennydd Rhanbarthol, Rhanbarth De Cymru – Adain Ddwyreiniol, a Mr John Hamill, Cyfarwyddwr Cyfathrebu United Grand Lodge of England, i gyfarfod y Pwyllgor ar 4 Ebrill gan gyflwyno cyflwyniad ynghylch hanes, polisïau ac egwyddorion y Seiri Rhyddion. Roeddynt yn pwysleisio mai eu prif bryder oedd mai'r Seiri Rhyddion oedd yr unig fudiad brawdoliaeth yr oedd yn rhaid nodi aelodaeth ohono yn y Gofrestr.

3.17 Mae'r Cynulliad yn aros am benderfyniad y Llys Hawliau Dynol yn Strasbourg ynghylch achos sy'n cael gwrandawiad o dan Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater eto yn sgil y dyfarniad ac yn adrodd i'r Cynulliad.

Protocol gyda'r Heddlu

3.18 Gwnaed trefniadau gyda Heddlu De Cymru i ymestyn y protocol presennol sy'n bodoli gyda hwy i heddluoedd eraill yng Nghymru.

Adolygiad o'r Trefniadau

3.19 Mae rheolau a trefniadau'r Cynulliad yn ymwneud â safonau ymddygiad wedi esblygu dros ddwy flynedd gyntaf bywyd y Cynulliad, a chred y Pwyllgor y byddai adolygiad trosfwaol o'r trefniadau a'r gweithdrefnau hyn yn briodol ac yn amserol. Bydd yr adolygiad yn cwmpasu awdurdod y Pwyllgor; effeithiolrwydd y drefn gwyno; rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad; a threfniadau cymharol mewn sefydliadau democrataidd eraill yn y DU. Mae'r Pwyllgor yn y broses o benodi rhywun i gyflawni'r adolygiad a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad am y casgliadau maes o law.

4. Casgliadau'r Pwyllgor o ran Safonau Moesegol (SO 16.1(v))

4.1 Fel y nodwyd uchod, dim ond pedair cŵyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd tri yn ymwneud â mynd yn groes i arweiniad y Cynulliad ar ddefnyddio adnoddau. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ymddengys nad oes fawr o sail i bryderu am safonau moesegol yr Aelodau.

4.2 Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y potensial i ddefnyddio trefniadau ac adnoddau er hybu mantais gwleidyddiaeth bleidiol yn parhau. Byddai'r Pwyllgor yn pryderu pe caniateid i'r math yma o weithgaredd effeithio ar ei allu i gyflawni ei waith difrifol.

Y PWYLLGOR SAFONAU
TACHWEDD 2001

ATODIAD A

RHEOL SEFYDLOG 16 – Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Teitl a Chylch Gwaith

16.1 Bydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a fydd:

(i) yn ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;

(ii) yn ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Ysgrifenyddion Cynulliad y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn;

(iii) yn ystyried unrhyw fater o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; ac

(v) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymrwyd, ac ar ei gasgliadau ynglŷn â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

Aelodaeth

16.2 Bydd y Cynulliad yn ethol Aelod i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor, ond bydd ganddo ef neu ganddi hi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Pwyllgor, neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Ymgynghorydd Annibynnol

16.3 Bydd y Cynulliad yn penodi person nad yw'n Aelod o'r Cynulliad nac yn aelod o'i staff i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau; a gall y Pwyllgor, yn ogystal â phenodi ei ymgynghorydd ei hun fel y bo'n briodol o dan baragraff 8.14, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater dan sylw'r Pwyllgor.

Cyfarfodydd

16.4 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod gynted ag y bo modd ar ôl i gŵyn gael ei chyflwyno iddo gan y Llywydd; ac ar adegau eraill y bydd y cadeirydd yn ei gynnull.

16.5 Gall y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, ond wrth ystyried cŵyn, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat oni fydd yn penderfynu fel arall. Os bydd ef neu hi'n gofyn am hynny, caniateir i unrhyw Aelod sydd neu a all fod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig iddo a gall person arall (a all gymryd rhan yn y trafodion gyda chaniatâd y cadeirydd) fod yn bresennol gydag ef neu hi mewn gwrandawiadau llafar.

Adroddiadau

16.6 Os bydd y Pwyllgor wedi ymchwilio i gŵyn sydd wedi'i chyflwyno iddo gan y Llywydd, bydd yn adrodd i'r Cynulliad gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r adroddiad ar yr ymchwiliad. Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad ar faterion eraill sy'n rhan o'i gylch gwaith o bryd i'w gilydd.

Atodiad B

TRYDYDD ADRODDIAD PWYLLGOR SAFONAU
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2000 – C004-00

Cwyn yn erbyn Aelod

Cylch Gorchwyl ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

1. Etholwyd y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 16 i ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Llywydd ynghylch achosion ble y torrwyd neu ble y mae'n bosibl y torrwyd gofynion Rheol Sefydlog 4 neu unrhyw un o benderfyniadau'r Cynulliad mewn perthynas â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau neu baragraff 2.8 Rheol Sefydlog 2; neu unrhyw un o'r protocolau neu ganllawiau mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau a gymeradwywyd trwy benderfyniad y Cynulliad; neu'r canllawiau ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad a gymeradwywyd gan y Cynulliad o dan baragraff 2.7 Rheol Sefydlog 2.

2. David Melding yw Cadeirydd y Pwyllgor. Dyma'r aelodau:

David Melding (Cadeirydd)	Canol De Cymru	Ceidwadwyr
Cynog Dafis	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Plaid Cymru
Richard Edwards	Preseli Sir Benfro	Llafur
Val Feld	Dwyrain Abertawe	Llafur
Janice Gregory	Ogwr	Llafur
Brian Hancock	Islwyn	Plaid Cymru
Christine Humphreys	Gogledd Cymru	Democratiaid Rhyddfrydol
Gareth Jones	Conwy	Plaid Cymru
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur

Clerc	Julie Grant
Dirprwy Glerc	Jill Thomas

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

3. Gosodir yr adroddiad hwn gerbron y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 16.6. Mae'n ymwneud â chŵyn ble yr honnwyd i God Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, y penderfynwyd ei fabwysiadu gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999, gael ei dorri trwy gamddefnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad.

4. Ymdriniwyd â'r gŵyn yn unol â'r drefn gwyno a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2000 ac a gyhoeddwyd ar y Fewnrwyd/Rhyngrwyd yn fuan wedi hynny.

5. Yn dilyn yr ymchwiliad rhagarweiniol gan yr Ymgynghorydd Annibynnol, cyfeiriodd y Llywydd y gŵyn o dan reol sefydlog 16.1 at Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau. O dan delerau'r weithdrefn, cyfeiriwyd y gŵyn wedi hynny at yr Ymgynghorydd Annibynnol iddo ef gynnal yr ymchwiliad ffeithiol ar ran y Pwyllgor. Hysbyswyd yr Aelod dan sylw, a rhoddwyd copi o'r drefn gwyno iddo.

6. Derbyniodd yr Ysgrifenyddiaeth adroddiad yr Ymgynghorydd a'i ddosbarthu i'r Pwyllgor ar 20 Hydref 2000. Cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat ar 26 Hydref (o dan Reol Sefydlog 16.5) i ystyried y gŵyn. Roedd yr Aelod dan sylw wedi cael gwybod y gallai wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor pe dymunai, ond dewisodd beidio â gwneud. Casgliad y Pwyllgor oedd y dylid gwrthod yr achos, am y rhesymau a grynhoir isod, ond y dylid gofyn i Bwyllgor y Tŷ ystyried gwneud ei ganllawiau yn fwy eglur. Wrth ystyried y mater, dylai ddarparu enghreifftiau a/neu ddiffiniadau o "personol" a "gwleidyddol bleidiol" ac ati, a nodi'r goblygiadau o ran adnoddau pe bai Aelodau'n defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad ar gyfer cyfarchion digymell.

Crynodeb o ystyriaethau'r Pwyllgor

7. Gwnaed y gŵyn yn erbyn yr Aelod gan Aelod arall ar ran etholwraig a'i merch. Y cefndir i'r achos oedd bod Aelod o'r Cynulliad wedi defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad i ysgrifennu at y ferch yn ei llongyfarch ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed. Honnodd y sawl a gyflwynodd y gŵyn bod y llythyr yn ddefnydd amhriodol o'r deunydd ysgrifennu a ddarperir am ddim i Aelodau.

8. Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a fabwysiadodd y Cynulliad ar 18 Mai 1999 yw'r prif god perthnasol. Noda paragraff 5 'Ymarfer yr Egwyddorion' yn y Cod:
"Ni chamddefnyddir unrhyw dâl neu lwfans a roddir i Aelodau at ddibenion cyhoeddus a rhaid dilyn yn ofalus y rheolau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau a lwfansau o'r fath."

9. Mae canllawiau mewn perthynas â defnyddio deunydd ysgrifennu ac adnoddau eraill y Cynulliad wedi'u hystyried gan Bwyllgor y Tŷ a'u cymeradwyo gan y Llywydd, ond nid oeddynt wedi'u cyhoeddi ar adeg ysgrifennu ac anfon y llythyr. Cyhoeddwyd y canllawiau ar 13 Medi 2000. Maent yn nodi na ddylid defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad ar gyfer gohebiaeth bersonol, nac at ddibenion gwleidyddiaeth bleidiol nac ymgyrchu.

10. Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch goblygiadau'r achos ger eu bron, o ran adnoddau, pe byddai'r holl Aelodau yn mabwysiadu'r un arfer. Er nad oedd yr achos yn torri'r canllawiau cyfredol fel y cyfryw, roedd yn amlwg

bod defnyddio adnoddau'r Cynulliad ar gyfer materion o'r fath yn faes annelwig iawn. Roedd arferion a safbwyntiau'n amrywio rhwng grwpiau'r pleidiau ac oddi fewn iddynt. Teimlai'r Pwyllgor yn gryf bod angen canllawiau mwy pendant a rhai templedau o bosibl. Ni fyddai'r rhain yn gosod ffurf llythyrau yn derfynol ar gyfer Aelodau ond byddai'n rhoi rhyw arweiniad ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n annerbyniol. Penderfynwyd y dylid gofyn i Bwyllgor y Tŷ ystyried y mater ymhellach gyda'r bwriad o roi canllawiau mwy eglur i Aelodau a'u staff.

Crynodeb

11. Dyma drydydd adroddiad y Pwyllgor Safonau a'r cyntaf ar gŵyn y mae wedi'i hystyried gan ddefnyddio'r weithdrefn newydd. Argymhelliad yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau oedd gwrthod y gŵyn ar y sail nad oedd llythyr yr Aelod at ei etholwr yn ddefnydd amhriodol o adnoddau'r Cynulliad. Nododd y Pwyllgor hyn, yn ogystal â'r ffaith nad oedd y canllawiau wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol ar yr adeg yr anfonwyd y llythyr. Felly penderfynodd y Pwyllgor wrthod yr achos.

D MELDING
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Tachwedd 2000

Atodiad B

PEDWERYDD ADRODDIAD PWYLLGOR SAFONAU
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2000 – C007-00

Cwyn yn erbyn Aelod

Cylch Gorchwyl ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

1. Etholwyd y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 16 i ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Llywydd ynghylch achosion ble y torrwyd neu ble y mae'n bosibl y torrwyd gofynion Rheol Sefydlog 4 neu unrhyw un o benderfyniadau'r Cynulliad mewn perthynas â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau neu baragraff 2.8 Rheol Sefydlog 2; neu unrhyw un o'r protocolau neu ganllawiau mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau a gymeradwywyd trwy benderfyniad y Cynulliad; neu'r canllawiau ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad a gymeradwywyd gan y Cynulliad o dan baragraff 2.7 Rheol Sefydlog 2.

2. David Melding yw Cadeirydd y Pwyllgor. Dyma'r aelodau:

David Melding (Cadeirydd)	Canol De Cymru	Ceidwadwyr
Cynog Dafis	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Plaid Cymru
Richard Edwards	Preseli Sir Benfro	Llafur
Val Feld	Dwyrain Abertawe	Llafur
Janice Gregory	Ogwr	Llafur
Brian Hancock	Islwyn	Plaid Cymru
Christine Humphreys	Gogledd Cymru	Democratiaid Rhyddfrydol
Gareth Jones	Conwy	Plaid Cymru
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur

Clerc	Julie Grant
Dirprwy Glerc	Jill Thomas

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

3. Gosodir yr adroddiad hwn gerbron y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 16.6. Mae'n ymwneud â chŵyn ble yr honnwyd i God Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, y penderfynwyd ei fabwysiadu gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999, gael ei dorri trwy gamddefnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad.

4. Ymdriniwyd â'r gŵyn yn unol â'r drefn gwyno a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2000 ac a gyhoeddwyd ar y Fewnrwyd/Rhyngrwyd yn fuan wedi hynny.

5. Yn dilyn yr ymchwiliad rhagarweiniol gan yr Ymgynghorydd Annibynnol, cyfeiriodd y Llywydd y gŵyn o dan reol sefydlog 16.1 at Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau. O dan delerau'r weithdrefn, cyfeiriwyd y gŵyn wedi hynny at yr Ymgynghorydd Annibynnol iddo ef gynnal yr ymchwiliad ffeithiol ar ran y Pwyllgor. Hysbyswyd yr Aelod dan sylw, a rhoddwyd copi o'r drefn gwyno iddo.

6. Derbyniodd yr Ysgrifenyddiaeth adroddiad yr Ymgynghorydd a'i ddosbarthu i'r Pwyllgor ar 20 Hydref 2000. Cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat ar 26 Hydref (o dan Reol Sefydlog 16.5) i ystyried y gŵyn. Roedd yr Aelod dan sylw wedi cael gwybod y gallai wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor pe dymunai, ond dewisodd beidio â gwneud. Casgliad y Pwyllgor oedd y dylid gwrthod yr achos, am y rhesymau a grynhoir isod, ond y dylid gofyn i Bwyllgor y Tŷ ystyried gwneud ei ganllawiau yn fwy eglur. Wrth ystyried y mater, dylai ddarparu enghreifftiau a/neu ddiffiniadau o "personol" a "gwleidyddol bleidiol" ac ati.

Crynodeb o ystyriaethau'r Pwyllgor

7. Gwnaed y gŵyn yn erbyn yr Aelod gan aelod o'r cyhoedd. Hanfod yr honiad oedd fod Aelod o'r Cynulliad wedi defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad i ysgrifennu llythyr gwleidyddol bleidiol, digymell at y sawl a wnaeth y gŵyn, mewn ymateb i lythyr yr oedd yr olaf hwn wedi'i ysgrifennu at bapur newydd ac a gyhoeddwyd yn y papur hwnnw. Honnodd y sawl a gyflwynodd y gŵyn bod y llythyr yn ddefnydd amhriodol o'r deunydd ysgrifennu a ddarperir am ddim i Aelodau.

8. Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a fabwysiadodd y Cynulliad ar 18 Mai 1999 yw'r prif god perthnasol. Noda paragraff 5 'Ymarfer yr Egwyddorion' yn y Cod:
"Ni chamddefnyddir unrhyw dâl neu lwfans a roddir i Aelodau at ddibenion cyhoeddus a rhaid dilyn yn ofalus y rheolau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau a lwfansau o'r fath."

9. Mae canllawiau mewn perthynas â defnyddio deunydd ysgrifennu ac adnoddau eraill y Cynulliad wedi'u hystyried gan Bwyllgor y Tŷ a'u cymeradwyo gan y Llywydd, ond nid oeddynt wedi'u cyhoeddi ar adeg ysgrifennu ac anfon y llythyr. Cyhoeddwyd y canllawiau ar 13 Medi 2000. Maent yn nodi na ddylid defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad ar gyfer gohebiaeth bersonol, nac at ddibenion gwleidyddiaeth bleidiol nac ymgyrchu.

10. Roedd yr achos unwaith eto'n codi pwnc canllawiau ar ddefnyddio adnoddau a'r maes annelwig sy'n bodoli ar ddiffiniad materion fel "gwleidyddol bleidiol". Daeth y Pwyllgor i'r farn ei bod yn debygol y byddai'r llythyr wedi torri'r canllawiau, pe byddent ar gael ar yr adeg yr anfonwyd y llythyr.

Ailadroddodd ei farn fod angen canllawiau mwy pendant a rhai templedau o bosibl er mwyn rhoi rhyw arweiniad ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n annerbyniol. Penderfynwyd y dylid gofyn i Bwyllgor y Tŷ roi canllawiau pellach i Aelodau a'u staff.

Crynodeb

11. Dyma bedwerydd adroddiad y Pwyllgor Safonau a'r ail ar gŵyn y mae wedi'i hystyried gan ddefnyddio'r weithdrefn newydd. Argymhelliad yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau oedd gwrthod y gŵyn gan nad oedd y canllawiau wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol ar yr adeg yr anfonwyd y llythyr. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr argymhelliad a gwrthod yr achos.

D MELDING
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Tachwedd 2000

Atodiad B

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD 01-2001 - Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26ain Ionawr 2001 yn unol â Rheol Sefydlog 16.6

CWYN YN ERBYN ALUN CAIRNS AC

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

1. Adroddiad yw hwn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 16.6 ynghylch cwyn y mae'r pwyllgor hwnnw wedi bod yn ei ystyried yn erbyn Alun Cairns AC. Mae'r gwyn yn ymwneud â thorri Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999, drwy ddefnyddio deunydd ysgrifennu yn amhriodol.

Cylch Gwaith y Pwyllgor Safonau

2. O dan Reol Sefydlog 16(ii) bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad:

> *yn ymchwilio i unrhyw gwyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglyn â safonau ymddygiad yr Aelodau …yn adrodd ar y gwyn honno ac os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gwyn…*

Ceir detholiad allan o'r Rheolau Sefydlog sy'n amlinellu cylch gwaith y Pwyllgor yn llawn yn Atodiad A. Ceir rhestr o Aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad B.

Y Gwyn

3. Y gwyn yn erbyn Mr Cairns yw ei fod wedi defnyddio deunydd ysgrifennu a gwasanaeth postio y Cynulliad yn amhriodol a hynny gydag amcanion gwleidyddol. Yr oedd Mr Cairns wedi ysgrifennu at un o'i etholwyr ar 18 Mai 2000 ar bapur pennawd y Cynulliad yn ei gwahodd i fynychu cyfarfod yn Ysgol Gynradd Penllergaer ar 24 Mai 2000 er mwyn

> *"obtain her views and ideas on how the National Assembly can best work for her".*

Yr oedd y llythyr hefyd yn cynnwys sawl cyfeiriad at faterion cenedlaethol a lleol uchel eu proffil lle'r honodd Mr Cairns i'r Blaid Geidwadol fod yn effeithiol. Dywedodd Alun Cairns wrth y Pwyllgor fod hwn yn un o gyfres o gyfarfodydd ar gyfer etholwyr a'i fod wedi anfon y llythyr at tua 120 o'i

etholwyr yn ardal Penllergaer trwy ddewis eu henwau ar hap o'r gofrestr etholiadol. Yr oedd cyfeiriadau'r unigolion ar ben y llythyr ac ar amlenni'r Cynulliad Cenedlaethol y cawsant eu hanfon ynddynt.

4. Nid oedd yr etholwraig yn bresennol yn y cyfarfod ar 24 Mai er ei bod wedi dychwelyd slip ateb at Mr Cairns i ddynodi ei bod yn bwriadu bod yn bresennol. Oherwydd hynny, dywedodd Mr Cairns iddi dderbyn llythyr pellach ganddo ef dyddiedig 2 Mehefin 2000, unwaith eto ar bapur pennawd y Cynulliad ac wedi ei gyfeirio yn bersonol ati hi, yn diolch iddi am fynychu'r cyfarfod hwnnw ac yn annog y ddeialog i barhau. Ym mharagraff olaf ond un yr ail lythyr hwnnw dywedodd Mr Cairns:

   "Finally a number of people expressed an interest to join Gower Conservative Association and therefore, enclosed is an application form for that purpose".

   Yr oedd Ffurflen Aelodaeth i ymuno â Cheidwadwyr Gwyr wedi'i hamgáu gyda'r llythyr.

5. Mae paragraff 5 o'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999 yn datgan:

   "Ni chamddefnyddir unrhyw dâl neu lwfans a roddir i Aelodau at ddibenion cyhoeddus a rhaid dilyn yn ofalus y rheolau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau a lwfansau o'r fath".

Crynodeb o Ymchwiliad y Pwyllgor

6. Ymdriniwyd â'r gwyn yn unol â gweithdrefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2000 yn dilyn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad.

7. Gwnaed y gwyn i'r Llywydd ar 16 Mehefin 2000. Gofynnodd i'r Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau gynnal ymchwiliad rhagarweiniol i weld a ddylai'r Pwyllgor ar Safonau Ymddygiad ystyried y gwyn yn llawn. Yn ei farn ef yr oedd yn gwyn ffurfiol a gyflwynwyd yn briodol gan yr achwynydd ar fater a oedd o fewn awdurdod y Pwyllgor. Yng ngoleuni'r adroddiad ar yr ymchwiliad rhagarweiniol penderfynodd y Llywydd gyfeirio'r gwyn i'r Pwyllgor ac i ofyn i'r Ymgynghorydd Annibynnol gynnal ymchwiliad ffurfiol er mwyn sefydlu union ffeithiau'r achos.

8. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Annibynnol adroddiad i'r Pwyllgor ar 6 Tachwedd. Anfonwyd copi o'i adroddiad at Mr Cairns yn ogystal. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 6 Rhagfyr i ystyried y gwyn. Eithriwyd y cyhoedd yn unol â Rheol Sefydlog 16.5 Cyflwynodd Mr Cairns sylwadau ar lafar ac yn ysgrifenedig I'r Pwyllgor ac atebodd gwestiynau gan Aelodau. Dymuna'r Pwyllgor nodi fod Mr Cairns wedi cydweithredu'n llwyr trwy gydol y broses.

9. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, cadarnhaodd Mr Cairns ei fod yn gyffredinol ymwybodol o'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'i fod wedi ceisio defnyddio synnwyr cyffredin bob amser wrth gymhwyso egwyddorion y Cod. Ni chymerodd unrhyw gyngor ynghylch y fenter hon na'r ohebiaeth gysylltiedig. Nid oedd yn ymwybodol o'r hyn oedd bryd hynny yn rheolau drafft ar y Defnydd o Adnoddau'r Cynulliad (nid yw'n aelod o Bwyllgor y Ty a ddrafftiodd y rheolau). Nid oedd yn ymwybodol pan anfonodd y llythyrau o fanylion y gwyn yn erbyn Aelod Cynulliad arall ac nid oedd chwaith wedi gweld Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Safonau a oedd yn delio â manylion y gwyn honno.

10. Pwysleisiodd Mr Cairns wrth yr Ymgynghorydd Annibynnol nad menter wleidyddol oedd ganddo mewn golwg - yn hytrach, yr oedd yn ei ystyried fel ymgais i godi ei broffil ei hun fel Aelod Cynulliad rhanbarthol a phroffil y Cynulliad yn gyffredinol. Yr oedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fwriadol mewn lleoliadau 'niwtral', megis ysgolion a byddai'r rhai a fyddai wedi mynychu'r cyfarfodydd wedi ei glywed yn datgan, bron hyd at syrffed, nad digwyddiadau 'gwleidyddol' mohonynt. Nid oedd yn ystyried y llythyrau fel 'cylchlythyrau' a chadarnhaodd fod pob un ohonynt wedi cael eu cyfeirio yn unigol at y sawl a wahoddwyd.

11. Yr oedd Mr Cairns yn awyddus i esbonio bod y llythyr dyddiedig 2 Mehefin yn cynnig parhau â'r ddeialog â'r etholwyr hynny a oedd wedi mynychu'r cyfarfod ar 24 Mai ac a oedd felly wedi dangos diddordeb mewn deialog o'r fath a chafodd ffurflen aelodaeth i ymuno â Chymdeithas Ceidwadwyr Gwyr ei chynnwys fel ymateb penodol i gais amryw o'r rhai a oedd wedi mynychu'r cyfarfod i wybod mwy am waith y Blaid Geidwadol yng Nghymru. Wrth ymateb i'r Ymgynghorydd Annibynnol, yr oedd Mr Cairns yn gadarn ei farn y byddai'r llythyr 'dilynol' hwn a oedd yn argymell parhau â'r ddeialog wedi cael ei anfon hyd yn oed pe na bai'r ffurflen i ymaelodi â Chymdeithas Ceidwadwyr Gwyr wedi cael ei chynnwys - disgrifiodd y ffurflen ymaelodi fel 'rhywbeth ar wahân'. Derbyniodd yr etholwraig yr ail lythyr am iddi ddangos wrth ateb y llythyr cyntaf fod ganddi ddiddordeb yn y ddeialog er na fu'n bresennol yn y cyfarfod. Bellach, o edrych yn ôl, yr oedd yn derbyn nad oedd yn briodol i gynnwys ffurflen gais i ymaelodi â Chymdeithas Ceidwadwyr Gwyr gyda'i lythyr dyddiedig 2 Mehefin a chyfaddefodd fod hynny yn groes i'r Cod Ymddygiad.

Casgliadau'r Pwyllgor

12. Nododd y Pwyllgor adroddiad yr Ymgynghorydd a'r sylwadau a wnaed gan Mr Cairns.

13. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y gellir, at ei gilydd, gweld llythyr Mr Cairns dyddiedig 18 Mai 2000 fel llythyr gan Aelod Cynulliad at un o'i etholwyr yn annog trafodaeth o faterion lleol perthnasol yn hytrach nag fel cyfrwng at ddibenion gwleidyddol neu ymgyrchu.

14. Er hynny, daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod yr ail lythyr oddi wrth Alun Cairns AC at yr etholwraig dyddiedig 2 Mehefin 2000 wedi cael ei anfon ymhlith rhesymau eraill er mwyn recriwtio aelodau newydd i'w blaid wleidyddol am ei fod yn cynnwys ffurflen gais i ymuno â Chymdeithas Ceidwadwyr Gwyr.

15. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod defnyddio deunydd ysgrifennu rhad ac am ddim a gyflenwyd i'r Cynulliad fel hyn yn ddefnydd amhriodol o lwfans a roddwyd i Aelod at ddibenion cyhoeddus. Ym marn y Pwyllgor, felly, cafodd Paragraff 5 o'r Cod Safonau ar gyfer Aelodau Cynulliad ei dramgwyddo.

16. Bwriedir i'r drefn gwyno beidio â datgelu enwau'r rhai dan sylw os oes modd. Oherwydd bod y Pwyllgor wedi penderfynu cefnogi'r gwyn, mae'r adroddiad yn enwi Mr Cairns. Er hynny, nid yw enwau eraill, gan gynnwys enw'r achwynydd, wedi cael eu datgelu er mwyn gwarchod eu cyfrinachedd.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Ionawr 2001

AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

David Melding (Cadeirydd)	Canol De Cymru	Ceidwadwr
Cynog Dafis	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Plaid Cymru
Janice Gregory	Ogwr	Llafur
Christine Gwyther	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	Llafur
Brian Hancock	Islwyn	Plaid Cymru
Chrstine Humphreys	Gogledd Cymru	Democrat Rhyddfrydol
Gareth Jones	Conwy	Plaid Cymru
Karen Sinclair	De Clwyd	Llafur
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur
Clerc	Andrew Gerge	
Dirprwy Glerc	Jill Thomas	
Ymgynghoryd Annibynnol ar Safonau	Richard Penn	

Atodiad B

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD 02-2001 – Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar *10 Gorffennaf 2001 yn unol â Rheol Sefydlog 16.6*

CWYN YN ERBYN AELOD

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

1. Dyma adroddiad i'r Cynulliad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 16.6 ynghylch cŵyn y mae'r Pwyllgor hwnnw wedi bod yn ei ystyried yn erbyn Aelod. Yn ôl y gŵyn, oherwydd y defnydd o e-bost a dderbyniwyd gan yr Aelod, fe dorrwyd y Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 18 Mai 1999, mewn perthynas â gofynion y Cod ynghylch "dyletswydd gyhoeddus" a "bod yn agored".

Cylch Gwaith y Pwyllgor Safonau

2. O dan Reol Sefydlog 16(ii) bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad:

> *Yn ymchwilio i unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau …yn adrodd ar y gŵyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn.*

Ceir dyfyniad o'r Rheolau Sefydlog sy'n amlinellu cylch gwaith y Pwyllgor yn llawn yn Atodiad A. Ceir rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad B.

Y Gŵyn

3. Y gŵyn yn erbyn yr Aelod yw ei fod wedi dosbarthu gohebiaeth breifat at bob Aelod Cynulliad a'u Staff Cymorth heb ganiatâd yr achwynydd. Honnwyd bod hyn wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cynulliad mewn perthynas â'r gofynion yn y Cod yn ymwneud â 'dyletswydd gyhoeddus' a 'bod yn agored'.

Crynodeb o Ymchwiliad y Pwyllgor

4. Ymdriniwyd â'r gŵyn yn unol â gweithdrefn a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2000 ar ôl ymgynghori â phob Aelod Cynulliad.

5. Gwnaed y gŵyn i'r Llywydd ar 26 Mawrth 2001. Gofynnodd ef i'r Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau gynnal ymchwiliad rhagarweiniol er mwyn penderfynu a ddylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried y gŵyn. Casgliad yr Ymgynghorydd Annibynnol oedd ei bod yn gŵyn ffurfiol, wedi'i chyflwyno yn briodol gan yr achwynydd ar fater a oedd o fewn awdurdod y Pwyllgor. Yng ngoleuni'r adroddiad ar yr ymchwiliad rhagarweiniol penderfynodd y Llywydd gyfeirio'r gŵyn i'r Pwyllgor ac i ofyn i'r Ymgynghorydd Annibynnol gynnal ymchwiliad ffurfiol i sefydlu ffeithiau'r achos.

6. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol i'r Pwyllgor ar 21 Mehefin 2001. Anfonwyd copi o'i adroddiad at yr achwynydd ac at yr Aelod. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 28 Mehefin i ystyried y gŵyn. Eithriwyd y cyhoedd yn unol â Rheol Sefydlog 16.5 a'r Weithdrefn Gwynion. Rhoddodd yr Aelod (yng nghwmni ffrind, yn unol â'r Weithdrefn) gyflwyniadau llafar i'r Pwyllgor ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

Casgliadau'r Pwyllgor

7. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd a'r cyflwyniadau a wnaed gan yr Aelod yn llawn.

8. Yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y camau a gymerodd yr Aelod yn torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o ran y gofynion sy'n ymwneud â 'dyletswydd gyhoeddus' a 'bod yn agored'.

9. Er hynny, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod angen gwneud Canllawiau'r Cynulliad ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad mewn perthynas â gwasanaethau e-bost yn fwy clir a chadarn, ac addawodd y byddai'n cyfeirio'r mater i Bwyllgor y Tŷ i'w ystyried ymhellach.

10. Diben y weithdrefn gwyno yw diogelu pawb sy'n ymwneud â hi drwy beidio â datgelu enwau'r rhai dan sylw. Gan fod y Pwyllgor wedi penderfynu na ddylid parhau â'r gŵyn, nid yw'r adroddiad hwn yn enwi'r Aelod na'r achwynydd, ac nid yw'n rhoi unrhyw fanylion ynghylch y gŵyn a allai arwain at ddatgelu'u henwau.

Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Gorffennaf 2001

AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

David Melding (Cadeirydd)	Canol De Cymru	Ceidwadwr
Cynog Dafis	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Plaid Cymru
Janice Gregory	Ogwr	Llafur
Christine Gwyther	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	Llafur
Brian Hancock	Islwyn	Plaid Cymru
Chrstine Humphreys	Gogledd Cymru	Democrat Rhyddfrydol
Gareth Jones	Conwy	Plaid Cymru
Karen Sinclair	De Clwyd	Llafur
Gwenda Thomas	Castell-nedd	Llafur

Clerc	Andrew Gerge
Dirprwy Glerc	Jill Thomas
Ymgynghoryd Annibynnol ar Safonau	Richard Penn